

202[X] No.

HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERIAU

Gorchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog
Cymru) 202[0]

Gwnaed - - - - ***
Yn dod i rym - - - - ***

CYNNWYS

RHAN I

RHAGARWEINIOL

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongliad

RHAN II

CAU DOC TYWYSOG CYMRU

3. Cau Doc Tywysog Cymru
4. Diddymu deddfwriaeth leol
5. Hysbysiad cau a gwaredu cychod a llongau o Ddoc Tywysog Cymru
6. Ynghylch cychod a llongau yn mynd i mewn i Ddoc Tywysog Cymru

Mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi gwneud cais am orchymyn adolygu harbwr o dan adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964 (a)

Mae swyddogaethau'r Gweinidog priodol at ddiben yr adran honno wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru (b)

(a) 1964 c.40; diwygiwyd adran 14 gan y Ddeddf Drafnidiaeth 1981 (c.56), adran 18 ac Atodlen 6, paragraffau 2 i 4(1) a 14 ac adran 40 ac Atodlen 12 (Rhan II); gan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (c.42), adran 63(1) ac Atodlen 3, paragraff 1; gan S.I. 2006/117, rheoliad 2 a'r Atodlen (Rhan 1); gan y Ddeddf Gynllunio 2008 (c.29), adran 36 ac Atodlen 2, paragraffau 8 a 9; a gan S.I. 2009/1941, erthygl 2 ac Atodlen 1, paragraff 12. Adran 54 (gorchmynion a rheoliadau) wedi'i ddiwygio gan y Ddeddf Drafnidiaeth 1981 (c.56) adrannau 18 a 40 ac Atodlen 6, paragraff 5(3) ac Atodlen 12 (Rhan II) a gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (c.23), adran 315 ac Atodlen 21, paragraffau 1 a 3(2).
(b) Trwy Adran 29(1) o Ddeddf Cymru 2017 (c.4).

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl eu bodloni fel y nodwyd yn adran 14(2)(b) a 14(2B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol

RHAN I RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1. Gall y Gorchymyn hwn gael ei enwi yn Orchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) [] ac fe ddaw i rym ar [].

Dehongliad

2. Yn y Gorchymyn hwn—

“mae'r Ddeddf 1874” yn golygu Deddf Harbwr Abertawe 1874(a);

“mae'r Ddeddf 1894” yn golygu Deddf Harbwr Abertawe 1894(b);

“mae'r Ddeddf 1901” yn golygu Deddf Harbwr Abertawe 1901(c);

Mae “Porthladdoedd CP” yn golygu Cymdeithas Porthladdoedd Prydain;

“cynllun wedi'i adneuo” yn golygu'r cynllun wedi'i baratoi yn ddyblyg wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru a'i nodi “Cynllun y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) []” y mae copi ohono wedi'i adneuo yn [Swyddfeydd Gweinidogion Cymru] a'r llall ym mhrif swyddfa Porthladdoedd CP;

“y Doc Feistr” yn golygu doc feistr Porthladdoedd CP yn Abertawe;

“Porthladd Abertawe” yn golygu y dociau a'r harbwr sy'n rhan o ymgymeriad Porthladdoedd C.P. yn Abertawe;

“Doc Tywysog Cymru” yn golygu'r doc a'r gwaith cysylltiedig sy'n ffurfio rhan o Borthladd Abertawe a awdurdodwyd gan Ddeddfau 1874, 1894, a 1901 ac sydd oddi fewn i'r ardal a ddangosir gan ymyl goch yn y cynllun adneuo.

RHAN II CAU DOC TYWYSOG CYMRU

Cau Doc Tywysog Cymru

3.-(1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn gall Porthladdoedd CP ar ba ddiwrnod bynnag oddi fewn i 42 diwrnod o'r Gorchymyn hwn yn dod i rym fel y byddan nhw'n dymuno trwy benderfyniad gau Doc Tywysog Cymru.

(2) Wrth gau Doc Tywysog Cymru o dan baragraff (1)-

(a) bydd Doc Tywysog Cymru yn peidio â bod yn rhan o Borthladd Abertawe;

(b) holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau a osodwyd ar Borthladdoedd CP o dan Ddeddfau 1874, 1894 a 1901 neu unrhyw ddeddfiad lleol arall mewn perthynas â neu mewn cysylltiad â Doc Tywysog Cymru yn peidio â bod;

(c) unrhyw hawliau mordwyo oddi fewn i Ddoc Tywysog Cymru yn cael eu dileu; ac

(a) c.civ (37 & 38 Vict.).

(b) c.cv (57 & 58 Vict.).

(c) c.ccliii (1 Edw.7).

- (d) unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth i gynnal sianel fordwyo i Ddoc Tywysog Cymru, oddi fewn i'r ardal wedi'i ddynodi mewn glas ar y cynllun adneuo neu bont droi ar draws yr ardal, yn cael ei ddileu.

Diddymu deddfwriaeth leol ac ati.

4.-(1) Yn amodol ar baragraff (2) pan gaeir Doc Tywysog Cymru bydd Deddfau 1874, 1894 a 1901, gan gynnwys unrhyw gytundeb yn atodlenni'r Deddfau hynny, ac unrhyw ddeddfiad lleol arall yn ymwneud â Phorthladd Abertawe, yn peidio â bod cyn belled ag y maen nhw'n berthnasol i Ddoc Tywysog Cymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn berthnasol i —

- (a) adran 6 (grym i ddargyfeirio dŵr i mewn i'r dociau) o Ddeddf 1874;
- (b) adran 7 (grym i ddargyfeirio dŵr i mewn i'r dociau) o Ddeddf 1894; a
- (c) adran 7 (grym i gymryd a dargyfeirio dŵr) o Ddeddf 1991.

Rhybudd i gau a gwaredu cychod a llongau o Ddoc Tywysog Cymru

5.-(1) Cyn gweithredu'r grym a roddwyd iddo gan erthygl 3 (Cau Doc Tywysog Cymru) o'r Gorchymyn hwn rhaid i gau Doc Tywysog Cymru rhaid i Borthladdoedd CP -

- (a) gyhoeddi rhybudd o fwriad i wneud hynny yn Lloyd's List ac unwaith mewn pythefnos ddilynol mewn papur lleol wedi'i gyhoeddi neu yn cylchredeg yn Abertawe gyda bwch rhwng dyddiadau cyhoeddi o ddim llai na chwe diwrnod clir,
- (b) arddangos copi o'r rhybudd mewn man amlwg ym Mhorthladd Abertawe; a
- (c) rhoi rhybudd o'i fwriad yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i bob un o'r rhybuddion—

- (a) nodi bod Porthladdoedd CP yn bwriadu cau Doc Tywysog Cymru i gychod a llongau; a
- (b) nodi dyddiad, a fydd yn ddyddiad heb fod ynghynt nag un mis wedi dyddiad y diweddaraf o'r tri chyhoeddiad; pan fydd yn ofynnol i bob cwch a llong adael Doc Tywysog Cymru.

(3) Pe na bai meistr unrhyw gwch neu long sydd oddi fewn i Ddoc Tywysog Cymru wedi symud ei gwch neu long cyn y dyddiad a nodwyd yn unol â pharagraff 2(b), gall y Doc Feistr sicrhau bod y cwch neu long yn cael ei symud o Ddoc Tywysog Cymru a'i angori neu ei osod mewn unrhyw fan arall lle gellir ei angori neu ei osod heb achosi niwed.

(4) Gall Porthladdoedd CP adennill fel dyled oddi wrth berchennog unrhyw gwch neu long gafodd ei symud o dan baragraff (3) yr holl gostau oedd ynghlwm yn y weithred o symud.

Ynglŷn â chychod a llongau yn mynd i mewn i Ddoc Tywysog Cymru

6. Pe bai unrhyw gwch neu long yn mynd i mewn i Ddoc Tywysog Cymru wedi'r dyddiad a nodwyd yn unol â pharagraff (2)(b) o erthygl 5 (Rhybudd i gau a gwaredu cychod a llongau o Ddoc Tywysog Cymru) o'r Gorchymyn hwn, gall y Doc Feistr gyfarwyddo meistr y cwch neu'r llong yn ddiymdroi i symud y cwch neu'r llong o Ddoc Tywysog Cymru, a phe na bai meistr y cwch neu'r llong yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau yn ddiymdroi bydd darpariaethau paragraffau (3) i (4) o erthygl 5 yn gynhwysol, yn weithredol ac yn berthnasol i'r cwch neu'r llong fel pe bai'r cwch hwnnw neu'r llong honno wedi bod oddi fewn i Ddoc Tywysog Cymru cyn y dyddiad hwnnw.

Llofnodwyd drwy awdurdod Gweinidogion Cymru

Cyfeiriad
Dyddiad

Enw
Teitl Llofnodydd
Adran

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi cau Doc Tywysog Cymru yn Abertawe ac yn diddymu deddfiadau lleol, yn cynnwys cytundebau wedi'u hatodi i'r deddfiadau hynny, i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r doc.